Beth ddaw o'r Deyrnas Unedig?

Mae ffurf y Deyrnas Unedig yn y dyfodol wedi dod yn ystyriaeth bwysig yn sgil y newidiadau cyfansoddiadol mawr y byddai Brexit yn eu hachosi. Bu cwestiwn annibyniaeth yn ffactor allweddol yng ngwleidyddiaeth yr Alban dros y degawd diwethaf ond yn ystod y flwyddyn ddiwethaf bu'n dringo'n uwch ar yr agenda yng Nghymru hefyd. Fel Cristnogion dylai'r gobaith o well dyfodol ein hysbrydoli, ond a yw'r dyfodol hwnnw'n gydnaws â'r gwerthoedd y credwn eu bod yn bwysig? A fydd yn ddyfodol lle bydd gofalu am y tlodion a'r difreintiedig ynteu a welwn anghydraddoldeb yn cynyddu? Sut mae ein ffydd yn lliwio ein gweledigaeth am y dyfodol?

Y CYD-DESTUN

Goresgynnwyd Cymru drwy rym milwrol ym 1282, ac mewn Deddfau Seneddol ym 1535 a 1542 diddymwyd ei threfn gyfreithiol frodorol a gosodwyd cyfraith Lloegr yn ei lle gan, mewn effaith, uno Cymru a Lloegr. Gwaharddwyd defnyddio'r iaith Gymraeg yn y drefn weinyddol gyhoeddus, er i'r defnydd ohoni yn Eglwys Loegr, yr Eglwys Sefydledig, o 1567 ymlaen leddfu rhywfaint ar yr effaith honno. Caniatawyd defnyddio'r iaith yn y llysoedd drwy ddeddfwriaeth ym 1967 ac yn raddol adferwyd y defnydd ohoni mewn agweddau eraill ar fywyd cyhoeddus. Datblygodd y drefn addysg hefyd yn raddol i gyfeiriad gwahanol i un Lloegr, a chyflwynwyd Cwricwlwm Cenedlaethol penodol ar gyfer Cymru ym 1988.

Ym mis Medi 1997, pleidleisiwyd mewn refferendwm yng Nghymru o fwyafrif tenau iawn o 6,721 o bleidleisiau i sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Ar y dechrau gallai'r Cynulliad ond cyflwyno deddfwriaeth eilaidd neu ddirprwyedig ac amrywio rhai agweddau ar bolisi Llywodraeth y DU yng Nghymru. Fodd bynnag, cynyddodd y pwerau hynny'n raddol a chafwyd mwyafrif sylweddol mewn refferendwm ym mis Mawrth 2011 o blaid caniatáu pwerau deddfwriaethol llawn i'r Cynulliad mewn meysydd datganoledig o fis Mai 2011.

Ni fu cefnogaeth gref i annibyniaeth lawn i Gymru yn y gorffennol, er bod polau piniwn yn aml wedi dangos bod dyhead am ragor o ddatganoli. Pan ddaeth Plaid Genedlaethol yr Alban i gyd-lywodraethu yno yn 2007, daeth Plaid Cymru yn rhan o'r Llywodraeth yng Nghymru, ond fel yr is-bartner mewn clymblaid â Llafur Cymru. Daeth y trefniant hwnnw i ben ar ôl Etholiadau'r Cynulliad yn 2011.

Yn yr Alban, gwrthodwyd y cynnig o annibyniaeth oddi wrth weddill y DU mewn refferendwm yn 2014. Fodd bynnag, ar ôl y refferendwm ar adael yr Undeb Ewropeaidd yn 2016, pan bleidleisiodd yr Alban i aros, tra bu i'r DU yn ei chyfanrwydd (gan gynnwys Cymru) bleidleisio i adael, daeth y pwnc yn fater o drafodaeth gyhoeddus eto. Mae hynny wedi dylanwadu ar y cyfan o'r DU, ac yn ystod 2019, mae polau piniwn yng Nghymru wedi dangos y gefnogaeth i annibyniaeth ar gyfer Cymru'n codi o'r 10% arferol i 24%, a chymaint â 33% pe byddai'r DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'n ddiweddar adroddiad ynghylch sut mae'n gweld dyfodol y Deyrnas Unedig, gyda chyd-barchu amlycach rhwng cenhedloedd yr Undeb, er bod Llafur Cymru'n parhau i wrthwynebu annibyniaeth. Bydd y newidiadau sylweddol i gyfansoddiad y DU y bydd Brexit yn eu hachosi'n golygu y bydd y materion hyn yn parhau'n berthnasol. Mae hynny oherwydd bod cymaint o feysydd polisi y mae gan yr UE ddylanwad sylweddol arnynt – megis amaethyddiaeth, pysgodfeydd, yr amgylchedd a chymorth rhanbarthol – wedi eu datganoli i Gymru ac y bydd angen eu hailwampio mewn Teyrnas Unedig y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd.

Ers datganoli, mae pwerau'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cynyddu'n raddol i gynnwys amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgodfeydd, addysg, yr amgylchedd, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, rhai agweddau ar fynd i'r afael â thlodi, tai, llywodraeth leol, yr iaith Gymraeg, chwaraeon a'r celfyddydau, twristiaeth a datblygu economaidd a llawer o agweddau ar drafnidiaeth. Mae gan y Cynulliad bellach hefyd bwerau trethu. Gellir gwylio fideo'n trafod y pwerau datganoledig yma.

CWESTIYNAU I'W TRAFOD

Mae pobl yn anghytuno am amryw o resymau ynghylch a ddylai Cymru barhau'n rhan o'r Deyrnas Unedig ynteu weithredu'n annibynnol. Beth yw'r gwerthoedd y credwch eu bod yn bwysig eu gwarchod yn y naill achos a'r llall?

Pe byddai'r Alban yn pleidleisio i fynd yn annibynnol, sut fyddai hynny'n effeithio ar y ffordd y byddech yn gweld dyfodol Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig?

CWESTIYNAU I YMGEISWYR

Beth fyddech chi'n ei wneud i sicrhau bod Cymru, un ai fel rhan o'r DU neu fel Cymru annibynnol, yn gallu gofalu am y tlodion a'r bobl fwyaf difreintiedig yn ein cymdeithas?
Beth fyddwch chi'n ei wneud i sicrhau bod cyd-drafod gan barchu ein gilydd yn nodweddu'r berthynas rhwng Cymru â gweddill y DU beth bynnag a ddigwydd yn yr Etholiad?

LOVE, PRAY, VOTE
GENERAL ELECTION 2019

JPIT

Cytûn
Eglwysi Ynghyd yng Nghymru
Churches Together in Wales